Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

Eich cyf:
Ein cyf: MAM/mdm
Dyddiad: 16 Mai 2024

Gofynnwch am: Michelle Morris
[redacted]

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

**Trwy e-bost yn unig**
SeneddCyllid@senedd.cymru

Annwyl Peredur

Ysgrifennaf ymhellach at gais y Pwyllgor am wybodaeth am “nifer y cwynion gan swyddogion cyngor am gynghorwyr a nifer y cwynion gan gynghorwyr am gynghorwyr”

Nid ydym fel mater o drefn yn cofnodi ‘statws’ achwynwyr sy’n dod â chwynion ynghylch achosion honedig o dorri’r Cod Ymddygiad i OGCC. Fodd bynnag, ar ôl cynnal adolygiad â llaw o’n hachosion diweddar, rydym wedi sefydlu’r canlynol:

**Cwynion Cynghorydd yn erbyn Cynghorydd**
**2023/24 –** gwnaed 30% o’r achosion a gafwyd gan gynghorwyr (99 o’r 328 o achosion)
**2024/25 hyd yn hyn –** gwnaed 30% o’r achosion a gafwyd gan gynghorwyr (10 o’r 34 achosion)

**Cwynion Swyddog yn erbyn Cynghorydd**
**2023/24 –** gwnaed 9% o’r achosion a gafwyd gan swyddogion (30 o’r 328 o achosion)
**2024/25 hyd yn hyn –** gwnaed 3% o’r achosion a gafwyd gan swyddogion (1 o’r 34 achosion a gafwyd)

Mae’n bwysig pwysleisio bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth y mae achwynwyr wedi dewis ei rhannu gyda ni pan wnaethant eu cwyn i ni naill ai am eu bod wedi defnyddio’r rhagddodiad ‘Cllr’ neu oherwydd bod eu statws yn amlwg o natur y gŵyn a amlinellwyd.

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Er efallai nad yw'r ffigurau yn gwbl gywir felly, hyderwn fod y wybodaeth hon yn rhoi syniad defnyddiol i'r Pwyllgor o natur ein llwyth achosion.

Yn gywir

**Michelle Morris**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus